# CYLCH GORCHWYL

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

## Adran 5 Adolygu trefniadau: Mynediad pobl hŷn at wasanaethau eiriolaeth a drefnir gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd, gyda phwyslais sylweddol ar ddiogelu

### 1. Cefndir a chyd-destun

Mae'r Comisiynydd yn defnyddio ei phŵer statudol i gynnal adolygiad o wasanaethau eiriolaeth annibynnol. Mae **eiriolaeth annibynnol** yn cyfeirio at wasanaethau eiriolaeth a drefnir ar gyfer pobl hŷn gan Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol, ond a ddarperir gan bersonau sy'n annibynnol o'r awdurdodau hynny, ac yn annibynnol o unrhyw drydydd parti y mae'r awdurdodau'n dibynnu arnynt i ddarparu gwasanaethau ar eu rhan (e.e. gofal preifat neu gartrefi nyrsio). Mae'r term yn cynnwys gwasanaethau eiriolaeth a gomisiynir, a gwasanaethau a ddarperir gan fudiadau gwirfoddol. Nid yw'r adolygiad yn cynnwys eiriolaeth a ddarperir fel rhan o waith beunyddiol darparwyr gwasanaeth (e.e. gan weithwyr cymdeithasol i'w cleientiaid). Felly, dylid ystyried bod y cylch gorchwyl hwn ac unrhyw holiaduron sydd wedi'u hatodi yn  cynnwys gwasanaethau eiriolaeth annibynnol yn unig.

Mae eiriolaeth annibynnol yn rhan hollbwysig o gefnogi pobl hŷn i arfer eu hawliau, sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, a llywio systemau cymhleth iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae eiriolaeth annibynnol yn rhan allweddol o fyd iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru ac mae'n ymddangos mewn llawer o statudau a rheoliadau.

Mae eiriolaeth annibynnol yn elfen hanfodol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae Rhan 10 o God Ymarfer (Eiriolaeth) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2019 yn nodi'r gofynion ar gyfer awdurdodau lleol o dan y Ddeddf mewn perthynas ag eiriolaeth. Mae eiriolaeth hefyd wedi'i gynnwys yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005 a Deddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd).

Mae Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol yn fath o eiriolaeth statudol a gyflwynwyd gan y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn rhoi hawl i rai pobl sydd heb alluedd meddyliol gael cymorth gan Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol.

Mewn rhai amgylchiadau, mae gan Awdurdodau Iechyd ac Awdurdodau Lleol ddyletswydd i sicrhau bod Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol ar gael i gynrychioli pobl sydd heb alluedd meddyliol i'w helpu i wneud penderfyniadau penodol, felly bydd angen i staff yr effeithir arnynt wybod pryd y mae'n rhaid cynnwys Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol.

Darperir gwasanaethau Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol gan sefydliadau sy'n annibynnol o'r GIG ac awdurdodau lleol.

O dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, mae Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol wedi bod yn fesur diogelu pwysig i gleifion sy'n cael eu trin o dan bwerau gorfodol y Ddeddf Iechyd Meddwl ers i'r cynllun statudol gael ei gyflwyno yng Nghymru yn 2008.

Mae cwmpas y cynllun eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol o dan Ddeddf 1983 yn cael ei ehangu yng Nghymru, gan Ran 4 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 i gleifion sy'n cael eu cadw o dan adrannau tymor byr penodol o Ddeddf 1983, yn ogystal ag i gleifion mewnol anffurfiol (h.y. nad ydynt yn cael eu cadw'n gaeth) sy'n cael asesiad neu driniaeth ar gyfer problemau iechyd meddwl mewn ysbytai yng Nghymru.

Mae eiriolaeth annibynnol yn arbennig o bwysig pan fydd pryderon diogelu, gan gynnwys sefyllfaoedd sy'n ymwneud â cham-drin, esgeulustod, gorfodaeth, camfanteisio neu risg o niwed, a lle gallai fod anghydbwysedd pŵer sylweddol rhwng pobl hŷn a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau am eu bywydau.

Mae ymholiadau i Wasanaeth Cyngor a Chymorth y Comisiynydd yn tynnu sylw at amrywiaeth o achosion lle byddai mynediad at eiriolwr annibynnol wedi bod o fudd i berson hŷn ac y gallai helpu (neu y byddai wedi helpu) i sicrhau canlyniadau gwell.

Yn fwy cyffredinol, roedd adolygiad thematig o Adolygiadau Ymarfer Oedolion yng Nghymru, a gomisiynwyd gan Fwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru, ac a gyhoeddwyd yn 2025, yn edrych ar rai o'r achosion anoddaf a thristaf ym maes diogelu oedolion yng Nghymru.[i] Roedd dros hanner yr unigolion a adolygwyd yn ymchwil Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn 60 oed neu'n hŷn, gyda chyfran sylweddol yn profi gwendidau sy'n gysylltiedig ag oedran.

Mae argymhelliad i ymarferwyr, rheolwyr, arweinwyr strategol a Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn ymwneud â blaenoriaethu cynnig a defnyddio'r eiriolwyr. Mae angen ystyried y rhain ym mhob rhan o'r broses ddiogelu ar y cam cynharaf posibl. Pwysleisir gwell dealltwriaeth o sut y caiff y defnydd o eiriolwyr ei hyrwyddo a'i hadolygu.

Mae'r Adolygiad arfaethedig gan y Comisiynydd yn adlewyrchu pryderon a godwyd gan bobl hŷn ac ymchwil bresennol mewn perthynas ag eiriolaeth annibynnol, gan gynnwys diogelu.

Bydd hefyd yn defnyddio casgliadau adroddiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2018. "Sicrhau Lleisiau i Bobl Hŷn: Mynediad Pobl Hŷn at Eiriolaeth Annibynnol yng Nghymru" (Mai 2018).[ii] Roedd adroddiad 2018 yn ychwanegu at waith blaenorol ar eiriolaeth a wnaed gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru: "Argymhellion Llais, Dewis a Rheolaeth sy'n ymwneud â darparu eiriolaeth annibynnol yng Nghymru", a gyhoeddwyd yn 2012.[iii]

Yn wahanol i waith 2018, mae'r Comisiynydd presennol yn bwriadu defnyddio ei phwerau cyfreithiol i gynnal adolygiad Adran 5 o drefniadau eiriolaeth.

## 2. Diffiniad o Eiriolaeth

Mae Adran 5 (4) Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 yn diffinio trefniadau eiriolaeth fel a ganlyn:

> (4) Mae trefniadau eiriolaeth yn drefniadau sy'n cael eu gwneud gan berson er mwyn sicrhau bod personau ar gael i—
>
> (a) gynrychioli barn a dymuniadau pobl hŷn berthnasol yng Nghymru;
>
> (b) ddarparu cyngor a chymorth o fath rhagnodedig i bobl hŷn berthnasol yng Nghymru.

Mae'r math o gymorth cynghori a eglurir gan adran 5(4)(b) wedi'i ragnodi yn rheoliad 3 o Reoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2007, sef:

> (a) rhoi cyngor a chymorth i bobl hŷn berthnasol yng Nghymru, er mwyn eu galluogi a'u cynorthwyo i fynegi eu barn a'u dymuniadau ar lafar neu drwy ddefnyddio unrhyw ddull arall o gyfathrebu, a
>
> (b) rhoi cyngor (gan gynnwys gwybodaeth) i bobl hŷn berthnasol ynghylch eu hawliau a'u lles.

Mae'r darpariaethau hyn gyda'i gilydd felly yn rhoi cwmpas statudol o bwerau'r Comisiynydd i adolygu trefniadau eiriolaeth.

## 3. Sail statudol

Fel y nodwyd uchod, arweinir yr adolygiad hyn o dan Adran 5 o Ddeddf Pobl Hŷn (Cymru) 2016.

O dan yr adran honno, mae gan y Comisiynydd bŵer i adolygu trefniadau eiriolaeth, a gweithrediad trefniadau o'r fath er mwyn canfod a yw'r trefniadau'n effeithiol o ran diogelu a hyrwyddo buddiannau pobl hŷn berthnasol yng Nghymru, ac i ba raddau y maen nhw'n effeithiol.

Caiff y Comisiynydd hefyd asesu effaith methiant person i wneud unrhyw drefniadau o'r fath ar bobl hŷn berthnasol yng Nghymru.

Diffinnir yr ymadrodd "pobl hŷn berthnasol yng Nghymru" yn adran 5 y Ddeddf honno i olygu pobl hŷn sy'n cael gwasanaethau penodol (sy'n cynnwys gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) gan ddarparwyr gwasanaethau penodol.

### Cael Gwybodaeth

O dan Reoliad 4 o Reoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2007, gall y Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i rai pobl ddarparu gwybodaeth y mae hi'n credu ei bod yn angenrheidiol neu'n fuddiol ei chael at ddibenion yr adolygiad.

Nid yw'r adolygiad yn ymchwilio i gwynion unigol nac yn cynnal ymchwiliadau diogelu gweithredol.

## 4. Pwrpas yr Adolygiad

Pwrpas yr adolygiad yw darganfod a yw trefniadau eiriolaeth annibynnol a ddarperir yng Nghymru gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn cefnogi pobl hŷn yn effeithiol i gael eu clywed, eu diogelu a'u trin yn deg, gan gynnwys pan fydd pryderon diogelu.  Bydd hefyd yn edrych ar gyfraniad Llywodraeth Cymru a Byrddau Diogelu Rhanbarthol at drefniadau eiriolaeth annibynnol yng nghyd-destun diogelu a hyrwyddo buddiannau pobl hŷn berthnasol yng Nghymru.

## 5. Cwmpas yr adolygiad

Bydd yr adolygiad yn ystyried trefniadau eiriolaeth annibynnol ar gyfer pobl hŷn 60 oed a hŷn ledled Cymru sy'n derbyn gwasanaethau iechyd ac awdurdodau lleol. Bydd yr adolygiad yn rhoi sylw penodol i sut mae eiriolaeth yn gweithredu mewn cyd-destunau diogelu (ond ni fydd yn gyfyngedig i hynny).

Bydd y materion a drafodir yn cynnwys (ond nid o reidrwydd yn gyfyngedig i) mynediad at eiriolaeth, eiriolaeth o fewn prosesau diogelu, annibyniaeth ac eglurder rôl, ymatebolrwydd i anghenion amrywiol, comisiynu a chysondeb, adrodd a goruchwylio, ac effeithiolrwydd a chanlyniadau i bobl hŷn. Bydd hefyd yn astudio'r trefniadau ymarferol a roddwyd ar waith, i sicrhau bod eiriolaeth yn gweithredu'n effeithiol, gan gynnwys cynnal cyfrinachedd perthynas yr eiriolwr/cleient ac urddas y cleient.

Ni fydd yr adolygiad yn ffocysu ar achosion diogelu unigol, yn asesu priodoldeb penderfyniadau diogelu penodol, yn disodli adolygiadau diogelu statudol, nac yn asesu perfformiad eiriolwyr unigol.

## 6. Dull yr Adolygiad

Gofynnir am wybodaeth gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd yng Nghymru ynghylch argaeledd, hygyrchedd a chwmpas eiriolaeth i bobl hŷn, yn enwedig mewn cyd-destunau diogelu. Bydd hyn yn cynnwys sut mae eiriolaeth yn cael ei gomisiynu, ei ddarparu, ei gofnodi a'i fonitro, gan gynnwys cydymffurfio â dyletswyddau statudol, ystyriaethau cydraddoldeb ac iaith (mynediad at y Gymraeg yn benodol).  Mae cysondeb ymarfer, hyfforddiant, ymwybyddiaeth ymarferwyr, prosesau atgyfeirio, a threfniadau llywodraethu ar gyfer eiriolaeth hefyd yn feysydd o'r adolygiad.

Gofynnir hefyd am wybodaeth gan Weinidogion Cymru a'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol ynghylch eu rôl yn nhrefniadau eiriolaeth Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol, goruchwyliaeth ac adroddiadau, a chyflawni eu cyfrifoldebau'n gyffredinol mewn perthynas ag eiriolaeth a phobl hŷn.

## 7. Allbynnau a chanlyniadau

Caiff y Comisiynydd baratoi adroddiad gyda chanfyddiadau ac argymhellion.  Bydd hwn yn cael ei gyhoeddi a bydd ar gael mewn fformatau sy'n hygyrch i bobl hŷn.

## 8. Amserlen

16 Gorffennaf 2026 Cais am wybodaeth a gyhoeddwyd o dan Adran 5 o Ddeddf Pobl Hŷn (Cymru) 2016 gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd, Llywodraeth Cymru a Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

28 Medi 2026 Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion.

27 Ionawr 2027 Cyhoeddi adroddiad ac argymhellion

31 Mawrth 2027 Dyddiad cau ar gyfer ymatebion gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a Gweinidogion Cymru i ddarparu manylion. Er mwyn i'r Comisiynydd allu penderfynu a ydyn nhw wedi cydymffurfio â'r argymhelliad neu a fydden nhw'n cydymffurfio, neu esboniad pam nad ydyn nhw wedi cydymffurfio neu pam na fydden nhw'n cydymffurfio.

---

[i] https://mcrmetropolis.uk/wp-content/uploads/2025/04/APR-Wales-Main-Report-March-2025-main-link.pdf
ii https://olderpeople.wales/library/Making_Voices_Heard.pdf
[iii] https://olderpeople.wales/wp-content/uploads/2022/05/Llais-Dewis-a-Rheolaeth.pdf